PWYLLGOR PENODI B

Dydd Gwener, 12 Gorffennaf 2019

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd L.M. Stephens (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:
C.A. Campbell, J.M. Charles, J.A. Davies, E. Dole, R. James, J.G. Prosser, G. Davies (yn lle W.T. Evans) and D. Price (yn lle L.D. Evans)

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
D. Richards, Rheolwr Prosiectau Adnoddau Dynol
J. Stuart, Uwch-Bartner Busnes (Adnoddau Dynol)
A. Belton, Cydlynydd Systemau a Chymorth Datblygu Sefydliadol
L. Jenkins, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP. 2.00 - 5.45 yp

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr L.D. Evans, W.T. Evans a S Davies.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR Y 1AF O CHWEFROR 2019

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1af o Chwefror, 2019 yn gofnod cywir.

4. EITHRIO'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf sef gwybodaeth ynghylch ymgeiswyr oedd yn cynnig am swydd gan yr Awdurdod.

5. DERBYN NODIADAU GWEITHREDU CYFARFOD O'R PANEL RHESTR FER A GYNHALIWYD AR Y 26 MEHEFIN 2019

Yn sgil gweithredu prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 4 uchod, ystyried y mater hwn**

yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad cyfarfod y Panel Rhestr Fer a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2019.

6. DERBYN CYFLWYNIADAU A CHYFWELD YR YMGEISWYR RHESTR FER AR GYFER SWYDD PENNAETH GWASANAETHAU ADDYSG A CHYNHWYSIANT, AC YSTYRIED GWNEUD PENODIAD.

Yn sgil gweithredu prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 4 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol.**

Amlinellodd y Cadeirydd y broses ddethol hyd yn hyn a'r drefn a awgrymwyd ar gyfer y cyfarfod. Nododd y Pwyllgor y byddai pob un o'r tri ymgeisydd ar y rhestr fer yn cael cyfweliad.

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan y tri ymgeisydd a chafodd aelodau'r Pwyllgor gyfle i ofyn cwestiynau i'r ymgeiswyr.

HYD Y CYFARFOD

Am 5:00pm wrth ystyried yr eitem hon, tynnwyd sylw'r Pwyllgor at Reol 9 o'r Weithdrefn Gorfforaethol - 'Hyd y Cyfarfod' - ac at y ffaith bod y cyfarfod wedi bod yn mynd rhagddo ers tair awr. **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL atal Rheolau'r Weithdrefn Gorfforaethol er mwyn galluogi'r Pwyllgor i ystyried yr eitemau a oedd ar ôl ar yr agenda.**

Ar ôl i'r cyflwyniadau a'r cyfweliadau gael eu cwblhau, cafodd y Pwyllgor adborth mewn perthynas â'r broses recriwtio gan y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant a'r Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad). Yn dilyn trafodaeth –

PENDERFYNWYD penodi Mr A Thomas yn Bennaeth Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant.

[Galwyd Mr A Thomas yn ôl i'r cyfarfod, a mynegodd ei fod yn derbyn y swydd.]

_____ _____

CADEIRYDD **DYDDIAD**